PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

DYFED POWYS POLICE AND CRIME PANEL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019-2020

cynnwys:

rhagair gan y cadeirydd	1
aelodaeth y panel	1
ein swyddogaeth	2
adolygiad o'r flwyddyn	3
cwynion yn erbyn y Comisiynydd	4
blaenoriaethau'r panel ar gyfer 2019/2020	5
ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/2021	7
casgliad	9
atodiad 1	10

rhagair gan y Cadeirydd

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Mae 2019-2020 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Panel. Mae fy nghydweithwyr a minnau wedi parhau i sicrhau bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn atebol am berfformiad ei swyddogaethau statudol a'i gynorthwyo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd. Unwaith eto, mae'r Panel wedi edrych nid yn unig ar blismona yn Nyfed-Powys, ond hefyd ar gylch gorchwyl ehangach y Comisiynydd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir megis cymorth i ddioddefwyr.

Unwaith eto, rydym wedi edrych ar enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill drwy rwydweithio â phaneli eraill ledled Cymru a Lloegr ac wedi tynnu sylw'r Comisiynydd at yr arferion hyn lle y bo'n briodol.

Rydym wedi parhau i annog y cyhoedd i ymwneud â gwaith y Panel. Mae bob amser croeso i aelodau'r cyhoedd ddod i'n cyfarfodydd, a gellir eu gwylio hefyd ar-lein drwy gyfleusterau gweddarlledu yn ein mannau cynnal cyfarfodydd.

Mae diwedd y flwyddyn wedi cyd-daro â'r pandemig coronafeirws sy'n parhau i gael effaith heb ei thebyg ar fywydau pob un ohonom. Er bod y ffocws cenedlaethol wrth reswm ar y GIG ar yr adeg anodd hon, ni ddylid anghofio rôl yr Heddlu a gwasanaethau rheng flaen eraill. Felly, hoffwn i a'm cyd-aelodau dalu teyrnged i'r holl weithwyr allweddol, beth bynnag fo'u rôl, sydd wedi ymdrechu i gynnal y gwasanaethau hanfodol hynny yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.

O ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi addasu ein blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021 i adlewyrchu bod etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'u gohirio (ac yn sgil hynny cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu newydd). Er nad yw'r Panel wedi cyfarfod ers y pandemig, mae'r Aelodau wedi cadw mewn cysylltiad â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'i swyddfa. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n hawdurdod cynnal i sefydlu cyfarfodydd o bell y Panel, y bydd y cyhoedd yn gallu eu gwylio.

Y Cyng. Alun Lloyd-Jones

(Cadeirydd y Panel)

aelodaeth y panel

Bu un newid i aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn, pan gymerwyd lle'r Cynghorydd Jim Jones o Sir Gaerfyrddin gan un o'i gyd-gynghorwyr ar Gyngor Sir Caerfyrddin, sef y Cynghorydd Emlyn Schiavone.

Ar ran fy nghyd-aelodau o'r Panel, hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Jones am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y panel ers iddo gael ei benodi.

Roedd swydd y ddau aelod annibynnol/cyfetholedig o'r Panel i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig Coronafeirws, mae etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a oedd wedi'u trefnu ar gyfer Mai 2020 wedi'u gohirio tan fis Mai 2021. Mae hyn yn golygu bod cyfnodau swydd aelodau annibynnol/cyfetholedig o'r Panel wedi cael eu hymestyn yn awtomatig i Hydref 2021 o ganlyniad.

Yn anffodus, mae'r pandemig coronafeirws wedi cael effaith uniongyrchol ar un o'n haelodau, y Cynghorydd William Powell, sydd wedi treulio llawer o amser yn yr ysbyty ar ôl iddo ddal y feirws. Diolch byth fodd bynnag, mae'n dechrau gwella, ac rwyf i a gweddill fy nghydweithwyr yn dymuno gwellhad buan iddo. Rydym ni i gyd yn edrych ymlaen at weithio gydag ef eto cyn gynted ag y mae'n ddigon iach.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aelodau'r Panel yn Atodiad 1.

ein swyddogaeth:

Swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddu yw;

1. Adolygu cynllun heddlu a throseddu'r Comisiynydd.
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi feto ar lefel y praesept.
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd.
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
7. Rhoi adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd.
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.

Dyma swyddogaethau statudol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun yr Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona;
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl;
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol; a
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept;

Nid oes gan y Panel, na'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.

adolygiad o'r flwyddyn:

Cynhaliodd y Panel 6 chyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Panel www.dppoliceandcrimepanel.wales drwy glicio ar y tab 'cyfarfodydd ', y botwm 'dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

crynodeb o'r cyfarfodydd

26 Ebrill 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau **a thwyll a seiberdroseddu**. Mae'r ddolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/media/5979/cofnodion-panel-heddlu-a-throseddu-dyfed-powys-26-04-19.pdf

3 Gorffennaf 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar **Iechyd Meddwl a phlismona** ac adroddiad diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ynghylch Heddlu Dyfed-Powys. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/media/5992/cofnodion-panel-heddlu-a-throseddu-dyfed-powys-03-07-19.pdf

25 Hydref 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar **Drais Domestig a Thrais Rhywiol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**, gan gynnwys tystiolaeth gan Rwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/media/5994/cofnodion-panel-heddlu-a-throseddu-dyfed-powys-25-10-19.pdf

6 Tachwedd 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar **Gwynion ac Iechyd Meddwl a Phlismona**. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/media/5996/cofnodion-panel-heddlu-a-throseddu-dyfed-powys-06-11-19.pdf

21 Chwefror 2020

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt**. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/media/6007/cofnodion-panel-heddlu-a-throseddu-dyfed-powys-21-02-20.pdf

cwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throseddu gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a wnaed. Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troseddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn.

Yn ystod y flwyddyn, cofnododd y Panel 3 cwyn gan y cyhoedd yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cafodd pob un o'r cwynion hyn eu datrys yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Cafodd un gŵyn a oedd wedi'i throsglwyddo o 2018-2019 ei datrys hefyd. Unwaith eto, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd y Panel brotocol diwygiedig ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath, sy'n ceisio adlewyrchu'n fwy priodol y rôl a'r pwerau cyfyngedig sydd gan y Panel. Mae manylion am y protocol hwn i'w gweld ar wefan y Panel.

www.panelheddluathroseddudp.cymru

blaenoriaethau'r panel ar gyfer 2019-2020

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018-2019, nododd y Panel 3 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel.

Nodir y blaenoriaethau a'r canlyniadau a gafwyd isod:

Blaenoriaeth 1	Beth wnaethom ni?	Ein Hamcan	Y Canlyniad
Craffu ar braesept arfaethedig yr heddlu (Arweiniodd y Cyng. Keith Evans ar y mater hwn ar ran y Panel))	Adolygu cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 2018-2019 Holi'r Comisiynydd yn ffurfiol am y cyfrifon hynny. Cael sesiwn briffio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno. Cael gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gafaelir gan y Comisiynydd. Cynnal gwrandawiad i ystyried y praesept arfaethedig a gwneud argymhelliad i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.	Sicrhau bod arian y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys.	Cynigiodd y Comisiynydd gynnydd o 4.83% yn y praesept er mwyn mynd i'r afael â'r galwadau ariannol ar ei gyllideb. Nododd y Panel hefyd fod perfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn dda ar y cyfan, bod gwasanaethau nad oeddent yn rhai heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd yn perfformio'n dda yn ôl pob golwg, a bod cost y gwasanaeth i dalwyr y dreth gyngor am y gwasanaeth a gawsant yn is na mewn rhannau eraill o Gymru. Felly, argymhellodd y Panel y dylai'r Comisiynydd fabwysiadu ei braesept arfaethedig yn ffurfiol. Derbyniodd y Comisiynydd yr argymhelliad hwnnw.
Blaenoriaeth 2	**Beth wnaethom ni?**	**Amcan**	**Canlyniad**
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Arweiniodd y Cyng. William Powell ar y mater hwn ar ran y Panel)	Derbyn adroddiad gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch y mater hwn. Gwahodd cynrychiolwyr o Rwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru a Fforwm Anabledd Sir Gaerfyrddin i ddod i gyfarfodydd y Panel er mwyn trafod sut mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar eu haelodau. Cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Roeddem wedi rhoi sylw i enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.	Deall lefel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Nyfed-Powys a'r effaith mae'n ei chael ar fywydau pobl.	Yn sgil pandemig Covid-19, gohiriwyd cyhoeddi adroddiad y Panel ar y flaenoriaeth hon tan 2020-2021.

blaenoriaethau'r panel ar gyfer 2019-2020

Blaenoriaeth 3	Beth wnaethom ni?	Amcan	Canlyniad
Ymgysylltu â'r cyhoedd (Arweiniodd y Cyng. Alun Lloyd-Jones ar y mater hwn ar ran y Panel)	Roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig er mwyn rhoi gwybod iddynt am ein gwaith a cheisio eu barn am Blismona a Throseddu yn Nyfed-Powys..	Sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham.	Yn ystod y flwyddyn; • Ymatebodd 141 o bobl i'n hymgynghoriad cyhoeddus ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. • Bu aelodau o'r cyhoedd yn bresennol mewn 2 gyfarfod y Panel a chafwyd tystiolaeth ganddynt am eu profiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. • Cafodd gwe-ddarllediadau o'n cyfarfodydd eu gwylio 196 gwaith. • Ymwelwyd â'n gwefan 4319 gwaith. • Cyflwynwyd 17 cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd i'w hystyried. O'r rhain dim ond 1 cwestiwn oedd yn bodloni'r meini prawf i'w gynnwys ar agenda cyfarfod y Panel. Cafodd yr 16 cwestiwn arall eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd drwy ei swyddfa. • Cyhoeddwyd 11 o ddatganiadau i'r wasg, ac o ganlyniad cafwyd sylw mewn papurau newyddion lleol ac ar y radio yn ogystal ag ar Wales Online ac yn y Western Mail. • Roeddem wedi sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Facebook a Twitter ac wedi gwneud 28 o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhai mwyaf poblogaidd wedi cyrraedd dros 7000 o bobl. • Datblygwyd cylchlythyr dwyieithog syml i'w ddosbarthu gan Aelodau'r Panel yn eu cymunedau. Mae'r uchod yn cynrychioli cynnydd sylweddol o ran ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith y Panel o'i gymharu â 2018-2019.

ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/2021

Mae'r Panel wedi penderfynu, yn ogystal â pharhau â'r blaenoriaethau presennol o ran pennu praesept yr heddlu a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Panel a'r ymgysylltu sy'n digwydd â'r Panel, y byddai hefyd yn blaenoriaethu archwiliad o gost-effeithiolrwydd buddsoddiad y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng mewn sawl canol tref yn ardal yr heddlu.

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021 fydd:

Blaenoriaeth 1	Amcan	Beth fyddwn yn ei wneud	Canlyniad Bwriadedig
Craffu ar Braesept yr Heddlu (Bydd is-bwyllgor, dan gadeiryddiaeth y Cyng. Keith Evans yn arwain y mater hwn)	Sicrhau bod arian y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys	Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus. Cael sesiwn briffio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno. Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd. Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid. Cynnal gwrandawiad i ystyried y praesept arfaethedig.	Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2021-2022 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.
Blaenoriaeth 2	**Amcan**	**Beth fyddwn yn ei wneud**	**Canlyniad Bwriadedig**
Teledu Cylch Cyfyng (Bydd is-bwyllgor yn cael ei benodi i arwain ar y mater hwn))	Deall yr effaith y mae buddsoddiad y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng wedi'i chael ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys, rheoli economi'r nos, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a'r effaith ar ofn y cyhoedd o droseddau yn gyffredinol.	Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn. Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel. Gofyn am farn y cyhoedd. Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.	Bodloni ein hunain bod y buddsoddiad mewn teledu cylch cyfyng yn cynrychioli gwerth da am arian a'i fod wedi bod yn fuddiol i bobl Dyfed-Powys.

Blaenoriaeth 3	Amcan	Beth fyddwn yn ei wneud	Canlyniad Bwriadedig
Ymgysylltu â'r cyhoedd (Bydd is-bwyllgor, dan gadeiryddiaeth y Cyng. Alun Lloyd-Jones yn arwain y mater hwn)	Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Panel, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwaith hwnnw.	Hyrwyddo ymhellach gwaith y Panel drwy we-ddarlledu a defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol. Cymryd camau pellach i ymgysylltu â'r elfennau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ar-lein drwy ddefnyddio papurau newyddion lleol. Ymgysylltu'n benodol â grwpiau lleiafrifol.	Bod y cyhoedd yn gwybod mwy am waith y Panel. Bod y cyhoedd wedi ymgysylltu â'r Panel i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bydd y Panel yn;

- Cyhoeddi ei adroddiad ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sydd wedi ei drosglwyddo o 2019-2020.
- Parhau i graffu ar y modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.

casgliad

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad i'r adroddiad blynyddol hwn, mae 2019-2020 unwaith eto wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Panel.

Cafodd y cynnydd o ran ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith y Panel ei groesawu a bydd yn sail uniongyrchol i'n hadroddiad ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a fydd, gobeithio, yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Byddwn yn ceisio adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2020-2021 gan ofyn am farn y cyhoedd unwaith eto ar fuddsoddiad y Comisiynydd mewn teledu cylch cyfyng.

Mae effaith y Coronafeirws ar fywydau pawb yn amlwg. O ran gwaith y Panel, mae'n anochel y bydd angen cynnal cyfarfodydd o bell hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y cyhoedd yn parhau i gael mynediad llawn i'r cyfarfodydd hynny pan fyddant yn digwydd.

Mae'n rhaid i mi gloi drwy ddiolch a thalu teyrnged unwaith eto i'r holl weithwyr rheng flaen sydd wedi parhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol hynny yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt yn ystod yr argyfwng hwn. Rwyf i a'm cyd-aelodau yn wirioneddol ddiolchgar am eu hymdrechion.

Y Cyng. Alun Lloyd-Jones

(Cadeirydd)

atodiad 1

Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

SIR GAERFYRDDIN

Y Cyng. John Prosser

64 Springfields, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 2DD

JGProsser@sirgar.gov.uk

01554 43192

SIR GAERFYRDDIN

Y Cyng. Ken Howell

Penlan Fawr, Penyboyr, Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5JF

KenHowell@sirgar.gov.uk

01559 370555

SIR GAERFYRDDIN

Y Cyng. Emlyn Schiavone

11 Brynteg, Pentremeurig, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 3ES

ESchiavone@sirgar.gov.uk

01267 231879

CEREDIGION

Y Cyng. Alun Lloyd Jones

Murmur yr Ystwyth, 14 Maes Isfryn, Llanfarian, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4UG

alun.lloydjones@ceredigion.gov.uk

01970 623661

CEREDIGION

Y Cyng. Keith Evans

Deganwy, Sunny Hill, Llandysul, Ceredigion SA44 4DT

keith.evans@ceredigion.gov.uk

01559 362258

CEREDIGION

Y Cyng. Lloyd Edwards

13 Maes Seilo, Penrhyncoch, Ceredigion SY23 3FL

lloyd.edwards@ceredigion.gov.uk

07375 498571

POWYS

Y Cyng. David Evans

Hafan Gymreig, Bryntirion Lane, Rhayader, Powys LD6 5LT

cllr.david.evans@powys.gov.uk

01597 810298

POWYS

Y Cyng. Les George

The Mill, Pontdolgoch, Caersws, Powys SY17 5JE

cllr.les.george@powys.gov.uk

01559 370555

POWYS

Y Cyng. William Powell

Middle Genffordd, Heol Penbont, Talgarth, Aberhonddu, Powys LD3 0EH

cllr.william.powell@powys.gov.uk

07703 112113

SIR BENFRO

Y Cyng. Michael James

'Bronllwyn', 7 Grove Terrace, Llandudoch SA43 3ER. Sir Benfro SA43 3ER

cllr.mike.james@sirbenfro.gov.uk

07789 685035

SIR BENFRO

Y Cyng. Robert Summons

19 Stryd y Gorllewin, Rhosfarced, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 1JH

cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk

01646 600827

SIR BENFRO

Y Cyng. Stephen Joseph

105 Heol Siarl, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 2HW

cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk

01646 600827

AELOD CYFETHOLEDIG

Ian Roffe

Greenlands, Clarach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DT

i.roffe@btinternet.com

01970 820537

AELOD CYFETHOLEDIG

Helen Thomas

16 Maes Yr Ysgol, Peniel, Sir Gaerfyrddin SA32 7BT

Helent072@gmail.com

01267 235824